Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Sona Care**

**27 Hilton Avenue**
**Aberdaugleddau**
**SA73 2PB**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

04/07/2023

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Sona Care

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cymorth Cartref |
| Darparwr Cofrestredig | Gwasanaethau Sona Care |
| Lleoedd cofrestredig | 0 |
| Iaith y gwasanaeth | Saesneg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | [Nodi â Llaw]27 Mehefin 2022 |
| A yw’r gwasanaeth hwn yn darparu’r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio tuag at ddarparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae hyn yn golygu darparu gwasanaeth drwy gyfrwng y Gymraeg yn rhagweithiol i bobl, heb fod angen iddynt ofyn am hynny. |

## Crynodeb


Mae'r bobl yn fodlon ar y gofal a'r cymorth y maent yn eu cael ac yn dweud bod y staff yn rhagorol. Ceir tîm sefydlog o staff gofal ymroddedig sy'n gweithio mewn modd parchus. Mae cynlluniau personol ar waith, ond mae angen iddynt fod yn fanylach a chanolbwyntio'n fwy ar yr unigolyn er mwyn cynnwys canlyniadau a dewisiadau'r bobl. Nid ydynt bob amser yn cael eu cadw'n gyfredol yn unol ag adolygiadau'r Awdurdod Lleol. Mae'r rheolwr yn rhoi gwybod i'r staff am newidiadau i anghenion gofal y bobl ar lafar ac yn ystod cyfarfodydd tîm.

Mae'r staff yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi a bod y rheolwr/Unigolyn Cyfrifol yn hawdd mynd ato ac yn rhoi o'i amser i wrando arnynt. Mae'r Unigolyn Cyfrifol wrthi'n dirprwyo tasgau rheoli i uwch-aelodau eraill o'r staff er mwyn ehangu'r busnes a gweithredu'n fwy effeithlon. Gwelsom fod angen gwneud gwelliannau mewn perthynas â rhai o'r dogfennau a ddefnyddir. Mae'r rhan fwyaf o'r polisïau allweddol wedi cael eu diweddaru ond gwelsom nad oedd dau ohonynt wedi cael eu hadolygu fel sy'n ofynnol. Mae angen rhoi system fwy cadarn ar waith ar gyfer y broses recriwtio gan nad yw gwiriadau llawn yn cael eu cwblhau bob amser cyn i aelodau o staff gofal ddechrau eu cyflogaeth.

## Llesiant

Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn teimlo'n ddiogel a'u bod yn cael eu parchu pan fydd staff gofal yn ymweld â'u cartrefi, a dywedodd un unigolyn, “*I feel very lucky*”. Caiff asesiadau risg trylwyr eu cynnal ar amgylchedd y cartref a chânt eu hadolygu'n rheolaidd er mwyn sicrhau bod y bobl yn cael eu cadw mor ddiogel â phosibl. Rhoddir hyfforddiant i'r staff ar weithdrefnau Diogelu ac maent yn ymwybodol o'r weithdrefn i'w dilyn os bydd ganddynt unrhyw bryderon. Mae'r uwch-aelodau o'r staff yn cynnal hapwiriadau ar y staff gofal er mwyn sicrhau eu bod yn parhau'n gymwys i gyflawni eu rolau. Mae hyn yn sicrhau bod y bobl yn cael eu cefnogi'n briodol gan ofal o safon uchel a bod eu llesiant yn cael ei hybu. Dywedodd un unigolyn wrthym ei fod yn nerfus ar y dechrau gan ei fod wedi cael profiad gwael wrth dderbyn gofal yn y gorffennol, ond nododd, “*needn’t have worried*”.

Mae'r bobl yn cael eu cefnogi gan staff sy'n gyfarwydd iddynt ac y maent wedi meithrin cydberthynas cadarnhaol â nhw. Ceir cyfradd cadw staff dda a pharhad gofal da. Mae systemau cyfathrebu da ar waith a rhoddir gwybod i bobl os bydd staff gofal yn rhedeg yn hwyr er mwyn eu hatal rhag mynd yn bryderus.

Ni all y bobl fod yn hyderus eu bod yn ddiogel bob amser gan fod angen gwneud gwelliannau i'r broses o recriwtio staff newydd. Gwelsom fod bylchau yn ffeiliau'r staff. Nid oedd ffeil pob aelod o'r staff yn cynnwys ei ffurflen gais ac nid oedd bylchau mewn hanes cyflogaeth bob amser wedi'u harchwilio'n llawn er mwyn sicrhau bod rheswm dilys drostynt.

Nid yw lleisiau'r bobl yn cael eu clywed yn llawn ac nid yw eu canlyniadau personol yn cael eu nodi'n glir. Felly, mae'n bosibl na allant gyflawni eu canlyniadau. Fodd bynnag, dywedodd un unigolyn ei fod yn cael llai o alwadau ar ei gais, gan nad oedd yn teimlo bod angen cymaint o gymorth arno.

Mae'r gwasanaeth yn gweithio tuag at ddarparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg: mae hyn yn golygu darparu gwasanaeth drwy gyfrwng y Gymraeg yn rhagweithiol i bobl, heb fod angen iddynt ofyn am hynny. Er nad oes angen darparu cymorth uniaith Gymraeg ar hyn o bryd, Cymraeg yw dewis iaith un unigolyn. Mae'r bobl yn cael eu parchu fel unigolion gan fod y rheolwr yn cydnabod pwysigrwydd iaith a diwylliant y bobl ac yn sicrhau bod staff sy'n gallu siarad Cymraeg yn cael eu dyrannu i'r galwadau cymaint â phosibl. Mae'r darparwr yn bwriadu cyfieithu rhai o'r dogfennau allweddol i'r Gymraeg. Mae'r bobl yn cael cyfle i gael gofal a chymorth gan staff sy'n gallu sgwrsio â nhw yn eu dewis iaith.

## Gofal a Chymorth

Mae'r bobl yn cael gofal a chymorth gan dîm bach o staff gofal profiadol yn eu cartrefi eu hunain, sy'n eu galluogi i barhau'n annibynnol am gyn hired â phosibl.

Rhoddir cymorth gyda thasgau gofal personol, paratoi bwyd, meddyginiaeth, a dyletswyddau cadw tŷ cyffredinol. Mae'r cynlluniau personol yn cynnwys manylion am anghenion y bobl a lefel y cymorth sydd ei angen arnynt yn ystod bob galwad, ond nid ydynt yn cynnwys canlyniadau na dewisiadau'r bobl.

Caiff rhai pecynnau gofal eu comisiynu gan yr Awdurdod Lleol a chaiff rhai eraill eu trefnu'n breifat. Gwelsom nad oedd un o'r cynlluniau personol yn gyfredol ac nad oedd rhai ohonynt wedi cael eu diweddaru â newidiadau i anghenion yn dilyn adolygiad gan yr Awdurdod Lleol. Mae hyn yn Faes i'w Wella, ac er nad oes angen gweithredu ar unwaith, rydym yn disgwyl i'r darparwr wneud gwelliannau erbyn yr arolygiad nesaf.

Ceir tystiolaeth bod y gwasanaeth yn ymgynghori â'r bobl ac yn dosbarthu holiadur iddynt er mwyn rhoi cyfle iddynt fynegi eu barn am y gofal a'r cymorth y maent yn eu cael. Mae'r bobl yn fodlon ar y gofal y maent yn ei gael a gwnaethant ddweud wrthym eu bod yn "*very lucky*", a bod y staff gofal yn "*excellent*". Dywedodd rhai o'r bobl y gwnaethom siarad â nhw wrthym eu bod yn cael eu cynnwys yn y broses adolygu. Fodd bynnag, ni chaiff hyn ei gofnodi yn y ffeiliau gofal unigol. Ni welsom gopïau o adolygiadau felly ni allwn fod yn sicr bod pob cynllun personol yn cael ei adolygu na pha mor aml y mae hynny'n digwydd. Ni allwn fod yn siŵr bod adolygiadau'n cael eu cynnal bob tri mis fel sy'n ofynnol. Caiff asesiadau risg eu cynnal ond nid oedd rhai ohonynt wedi cael eu hargraffu'n glir ac roedd rhywfaint o'r testun ar goll, gan ei gwneud hi'n anodd i'r staff eu darllen.

Mae'r staff gofal yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am anghenion cymorth y bobl drwy fynychu cyfarfodydd staff lle y caiff anghenion pob unigolyn eu trafod. Darparwyd copïau o gofnodion y cyfarfodydd hyn yn ystod yr arolygiad ac roeddent yn dangos bod atgyfeiriadau amserol yn cael eu gwneud at weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol eraill yn ôl yr angen er mwyn sicrhau bod y bobl yn cael cymorth priodol.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae'r Unigolyn Cyfrifol/Rheolwr yn adnabod y bobl yn dda ac mae'r staff gofal a'r perthnasau yn rhoi gwybod iddo am newidiadau i anghenion y bobl. Mae'n amlwg bod y bobl a'u cynrychiolwyr yn gallu siarad â'r Unigolyn Cyfrifol a'u bod yn hyderus y bydd yn gwrando arnynt. Nid oes gan yr Unigolyn Cyfrifol systemau ar waith i asesu, monitro a gwella ansawdd a diogelwch y gwasanaeth yn effeithiol, a byddai cynnal archwiliadau a systemau mwy trylwyr yn sicrhau'r canlyniadau gorau posibl i'r bobl. Er bod yr Unigolyn Cyfrifol wedi llunio adroddiad, nid yw'n fanwl ac ni chaiff adroddiadau eu cwblhau bob chwe mis. Mae hyn yn Faes i'w Wella, ac er nad oes angen gweithredu ar unwaith, rydym yn disgwyl i'r Unigolyn Cyfrifol gwblhau'r adroddiadau hyn erbyn yr arolygiad nesaf.

Roedd staff y gwnaethom siarad â nhw yn gadarnhaol iawn am yr Unigolyn Cyfrifol ac yn teimlo ei fod yn eu cefnogi. Dywedodd un aelod o'r staff wrthym, "*No matter what, I feel I can go to them (the RI)".* Mae angen gwella'r broses recriwtio a gwelsom fod bylchau yn ffeiliau'r staff. Caiff y gwiriadau gofynnol megis gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd eu cynnal, ond nid oedd pob un o'r ffeiliau'n cynnwys dogfennau adnabod â llun na manylion hanes cyflogaeth llawn. Mae hyn yn Faes i'w Wella, ac er nad oes angen gweithredu ar unwaith, rydym yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i sicrhau diogelwch a llesiant y bobl sy'n cael gofal a chymorth. Byddwn yn gwirio hyn yn ystod yr arolygiad nesaf.

Dywedodd y staff wrthym eu bod yn ymgymryd â'r hyfforddiant perthnasol, ond ni welsom dystiolaeth o hyn. Caiff sesiynau goruchwylio eu cynnal a gall y staff gofal gael sesiynau goruchwylio anffurfiol ar unrhyw adeg gydag uwch-aelod o'r staff. Nid yw'r cofnodion goruchwylio yn dangos bod trafodaethau ystyrlon yn cael eu cynnal, ac mae hyn wedi cael ei drafod â'r Unigolyn Cyfrifol. Mae sesiynau goruchwylio un i un yn gyfle i'r staff fyfyrio ar eu hymarfer a nodi meysydd lle mae angen cymorth a hyfforddiant arnynt. Felly, mae'r sesiynau hyn yn agwedd bwysig ar rôl y rheolwr.

Mae'r polisïau a'r gweithdrefnau perthnasol ar waith, ac mae'r rhan fwyaf ohonynt wedi cael eu hadolygu ers yr arolygiad blaenorol. Gwelsom fod angen diweddaru dau o'r polisïau allweddol o hyd. Cawsom sicrwydd gan yr Unigolyn Cyfrifol y byddai'n mynd i'r afael â'r mater hwn erbyn yr arolygiad nesaf a'i fod wedi'i nodi fel Maes i'w Wella.

Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn amddiffyn y bobl rhag niwed a chamdriniaeth cymaint â phosibl. Caiff hapwiriadau eu cynnal yn ystod galwadau er mwyn sicrhau bod y staff gofal yn darparu gofal o safon uchel ac yn diwallu anghenion y bobl. Mae'r staff yn ymwybodol o'r gweithdrefnau i'w dilyn os bydd ganddynt unrhyw bryderon a dengys cofnodion cyfarfodydd staff fod atgyfeiriadau'n cael eu gwneud at weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol mewn modd amserol.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| **Rheoliad** | **Crynodeb** | **Statws** |
| 16 | Rhaid i'r cynlluniau personol gael eu hadolygu pan fo angen, ond o leiaf bob 3 mis. Gwnaethom edrych ar y ffeiliau gofal ac ni welsom unrhyw gofnod o adolygiadau ynddynt. | Newydd |
| 80 | Nid yw'r darparwr wedi cwblhau'r adroddiadau gofynnol ar ansawdd y gofal. Felly, ni allem fod yn sicr, ac nid oedd tystiolaeth ar gael bod y darparwr yn rhoi ystyriaeth briodol i ganlyniadau unrhyw archwiliadau nac yn sicrhau bod cofnodion wedi'u cwblhau. Nid oedd dadansoddiad ar gael o'r data nac atgyfeiriadau diogelu, hyfforddiant y staff, asesiadau o'r gofal a'r cymorth cyffredinol a ddarperir i'r bobl gan y gwasanaeth na'r ddarpariaeth o wybodaeth i gefnogi cyfraniad y bobl at asesiadau ac adolygiadau. Ni all y bobl fod yn hyderus bod systemau ar waith i sicrhau eu bod yn cael y cyfle i gyflawni eu canlyniadau llesiant yn llawn. Heb adolygiad manwl o'r gwasanaeth, ni all yr Unigolyn Cyfrifol wneud argymhellion ystyrlon na chymryd camau i helpu i wella'r gwasanaeth ar gyfer y dyfodol | Heb Gyflawni |
| 35 | Nid yw'r darparwr wedi cynnal y gwiriadau angenrheidiol i sicrhau bod proses recriwtio gadarn ar waith. Nid oedd y cofnodion recriwtio y gwnaethom edrych arnynt yn cynnwys yr holl wybodaeth sy'n ofynnol, ac nid oedd ffeiliau'r staff yn cynnwys dau eirda na'u ffurflen gais. | Heb Gyflawni |
| 23 | Nid yw darparwr y gwasanaeth yn sicrhau bod unigolion yn cael y wybodaeth sydd ei hangen arnynt i gymryd rhan mewn asesiadau, cynlluniau na phenderfyniadau o ddydd i ddydd am y ffordd y darperir gofal a chymorth iddynt a'r ffordd y cânt eu cefnogi i gyflawni eu canlyniadau personol. | Heb Gyflawni |
| 12 | Ni welsom unrhyw dystiolaeth bod darparwr y gwasanaeth yn sicrhau bod cynnwys y polisïau a'r gweithdrefnau y mae'n ofynnol iddynt fod ar waith drwy rinwedd paragraffau (1) i (3) yn cael eu diweddaru a'u hadolygu, a'u bod yn cydymffurfio â deddfwriaeth gyfredol. | Heb Gyflawni |

| | | |
|---|---|---|
| 73 | - Methiant i gwblhau ymweliadau Rheoliad 73 a'u dogfennu. | Cyflawnwyd |
| 60 | Methiant i gyflwyno hysbysiadau mewn modd amserol ac yn y fformat gofynnol. Nid yw AGC wedi cael unrhyw hysbysiadau gan y darparwr ers iddo ddechrau gweithredu. Pan drafodwyd hyn â'r darparwr, nid oedd yn siŵr a oedd wedi actifadu ei borth ar-lein AGC | Cyflawnwyd |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** Insert_Report_Published_Actual_Donot_Delete